Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ

Hywel

Dyddiad: Dydd Mawrth, 8 Ionawr 2019

Amser: 08.30 - 08.47

Preifat

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Pwyllgor:	Elin Jones AC (Cadeirydd) Rebecca Evans AC Darren Millar AC Rhun ap Iorwerth AC Neil Hamilton AC
Staff y Pwyllgor:	Aled Elwyn Jones (Clerc)
Eraill yn bresennol	Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd Helen Carey, Llywodraeth Cymru

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd Rebecca Evans, y Gweinidog dros Gyllid a'r Trefnydd, gan ddweud ei bod yn dirprwyo'n ffurfiol ar ran Julie James yn y cyfarfod heddiw. Bydd cynnig yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn yfory i ethol Rebecca Evans yn ffurfiol i'r Pwyllgor Busnes.

2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

3 Trefn busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Busnes yr Wythnos Hon

Dydd Mawrth

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio fel yr eitem olaf o fusnes.

Dydd Mercher

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y ddadl fer.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

Dydd Mercher 16 Ionawr 2019 -

- Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol: Rheoliadau'r Amgylchedd Morol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 (15 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Diogelwch Tân mewn Adeiladau Uchel Iawn (60 munud)
- ~~Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud) – *gohiriwyd tan 23 Ionawr*~~

Dydd Mercher 23 Ionawr 2019 -

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.91 yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Aelod ynghylch Hawliau Pobl Hŷn (60 munud)
- ~~Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Wasanaethau Gwybodeg GIG Cymru (60 munud) – *gohiriwyd tan 30 Ionawr*~~
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud) – *gohiriwyd tan 16 Ionawr*
- ~~Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud) – *gohiriwyd tan 30 Ionawr*~~

Dydd Mercher 30 Ionawr 2019 -

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Wasanaethau Gwybodeg GIG Cymru (60 munud) – *gohiriwyd ers 23 Ionawr*
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud) – gohiriwyd – *gohiriwyd ers 23 Ionawr*

3.4 Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, Rheoliadau'r Amgylchedd Morol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

Cytunodd y Rheolwr Busnes i gynnal dadl ar y cynnig 16 Ionawr

4 Pwyllgorau

4.1 Cais am ddadl ar Ddeiseb

Trafododd y Rheolwyr Busnes y cais a dywedodd Rhun ap Iorwerth ei fod yn deall bod canllawiau NICE wedi'u diweddaru ers i'r llythyr gael ei anfon. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ystyried hyn ymhellach, mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Deisebau, cyn penderfynu a ddylid cynnal dadl.

5 Amserlen y Cynulliad

5.1 Papur i'w nodi - Amserlen Cwestiynau Llafar y Cynulliad

Nododd y Rheolwyr Busnes y newidiadau. Dywedodd y Trefnydd fod Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion yn trafod sut y byddant yn dyrannu'r cyfrifoldebau rhyngddynt.

Bydd y ddogfen 'Cyfrifoldebau'r Gweinidogion,' yn cael ei diwygio a'i chylchredeg eto i'r Aelodau yn fuan.

6 Deddfwriaeth

6.1 Y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Cadeiriodd y Dirprwy Lywydd yr eitem hon gan mai'r Llywydd yw'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.

Ystyriodd Rheolwyr Busnes y papur a ph'un ai'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ddylai fod yn gyfrifol am ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil. Nododd Darren Millar fod gwrthdaro buddiannau yn achos un aelod o'r Pwyllgor hwn sydd hefyd yn aelod o Gomisiwn y Cynulliad, ac awgrymodd y dylid cyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol. Nodwyd hefyd fod y Pwyllgor hwnnw'n cynnwys Aelod o'r Comisiwn.

O gofio mai'r penderfyniad cyntaf yw ymgynghori ynghylch yr amserlen arfaethedig ar gyfer y Bil, cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori â'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol cyn penderfynu at ba bwyllgor y dylid cyfeirio'r mater.

O ran mater yr amserlen arfaethedig, cododd y Trefnydd yr effaith bosibl ar Fil Etholiadau Lleol y Llywodraeth os bydd unrhyw oedi wrth gyflwyno'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru).

Unrhyw fater arall

Ymweliad y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau â Manceinion

Cytunodd y Rheolwyr Busnes â'r cais.